Cyngor Cymuned Llangwyryfon

Cyfarfod o'r Cyngor, nos Iau Tachwedd 19 yn Festri Capel Tabor. Presennol: Islwyn Jones, Fred Jones, Huw Griffith, David Jones, Peter Tandy, Lyn Davies, Margaret Lewis, Morgan Morgans, y Cynghorydd Rowland Rees-Evans a'r clerc.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Hydref, ac arwyddwyd eu bod yn gywir.

Materion yn codi

1 Torri coeden yn yr hen fynwent. Dim byd pellach i'w adrodd.

2 Cais at Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i gael rhywun o'r grŵp Prosiect Iechyd Meddwl i ddod i siarad â'r Cyngor.
Wedi methu cael ateb.

3 Diffibriliwr. Dim gwybodaeth bellach ynglŷn ag yswiriant ond ymholiadau i barhau.

4 Atgyweirio'r hysbysfwrdd. Adroddodd Peter Tandy y byddai'r gwaith mewn llaw yn fuan.

Gohebiaeth

1 Cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. Derbyniwyd er gwybodaeth.

2 Drafft Cynllun Gwella Blynyddol Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer 2016/17. Gellir ei weld ar eu gwefan, ac maent yn gwahodd sylwadau.

3 Prosiect Trawsnewid Iechyd Meddwl. Cyfle i fynegu barn am ddewisiadau amgen yn hytrach na gofal ysbyty iechyd meddwl.

4 Ffurflen flynyddol ar Wariant Refeniw ynglŷn â thir claddu a mynwentydd yn y flwyddyn 2014/15. Arwyddwyd a dychwelwyd.

5 Llythr wrth y Cyngor Sir yn dweud fod Sarah Pinnell yn ymgymryd â rôl Ceidwad Hawliau Tramwy a Mynediad i Gefn Gwlad yn yr ardal yma.

6 Derbyniwyd cylchgrawn ac apel Noah's Ark a chylchgrawn

Clerks and Councils Direct.
7  Cyfriflen y banc yn dangos cyfanswm o £2358.46 ar 30ain Hydref. Ers hynny mae £709.71 wedi cael eu talu allan.

Adroddodd un o’r Cynghorwyr fod gwybodaeth am gyfrifon y Cyngor Cymuned yn ymddangos ar ei gyfrifiadur gyda’i gyfrifon personnol ef.  Cytunai pawb na ddylai hyn fod yn digwydd, a gofynnwyd iddo fynd i’r banc a’u cael i gywiro’r camgymeriad.

Unrhyw fater arall.
1  Rhoddwyd sylw manwl i’r Cyfarwyddiadau ynglyn â Risk Assessment.  Gofynnwyd i’r clerc wneud rhai newidiadau ac ymholiadau ynglyn ag yswiriant ac adrodd yn ôl i’r cyfarfod nesaf cyn medru arwyddo’r datganiad.

2  Codwyd pryderon ynglyn â’r dwr sy’n llifo lawr y ffordd o’r Hen Ficerdy i Penybont.  Gall hwn fynd yn beryglus o llithrig ar dywydd rhew.  Gofynnwyd i’r clerc gysylltu â’r Cyngor Sir i wneud yn siwr bod y draeniau yn glir.

Cyfarfod nesaf Ionawr 21ain, os na fyddai angen galw pwyllgor arbennig cyn hynny.